Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Larymau Carbon Monocsid

## Mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Ymgynghoriad Larymau Carbon Monocsid**'.

**Ionawr 2023**

# Cynnwys

**Tudalen**

**Cyflwyniad** ................................ Error! Bookmark not defined.

**Larymau carbon monocsid.** Error! Bookmark not defined.

**Mannau eraill** ........................ Error! Bookmark not defined.

**Ystafelloedd gwely** .............. Error! Bookmark not defined.

**Poptai** ................................................................... **12**

**Pethau eraill i feddwl amdanyn nhw .**Error! Bookmark not defined.

**Larymau** ............................. Error! Bookmark not defined.

**Costau** ................................................................... **15**

**Amdanoch chi** ......................... Error! Bookmark not defined.

**Sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth** Error! Bookmark not defined.

**Geiriau anodd** .......................... Error! Bookmark not defined.

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y bydd arnoch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.




Efallai y bydd geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn anodd i'w deall. Gallwch edrych beth mae'r geiriau mewn glas yn meddwl ar **dudalen 23**.

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**E-bost:** enquiries.brconstruction@gov.wales

**Ffôn:** 0300 062 8144


Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall hwn, cliciwch yma.

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

# Cyflwyniad



Mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn cael eu hamddiffyn rhag y peryglon o gael eu gwenwyno gan **garbon monocsid**.



Mae **carbon monocsid** yn nwy sy'n cael ei gynhyrchu pan fydd tanwydd fel nwy, olew a glo yn cael eu llosgi.



Rydyn ni'n llosgi tanwydd fel nwy, olew a glo pan fyddwn ni'n coginio neu'n defnyddio lleoedd tân gartref.



Pan na fydd pobl yn gofalu am offer fel lleoedd tân, poptai nwy a boeleri yn iawn, gallan nhw ollwng **carbon monocsid**.



Does dim arogl arno. Na lliw. Na blas. Felly mae'n anodd gwybod ei fod yno.



Os bydd pobl yn cael eu gwenwyno'n ysgafn, efallai y byddan nhw'n cael cur yn y pen a symptomau sy'n teimlo fel y ffliw.



Mae lefelau uwch o **garbon monocsid** yn gallu gwneud i bobl lewygu neu hyd yn oed farw.

# Larymau carbon monocsid



Gall **larymau carbon monocsid** rybuddio pobl bod **carbon monocsid** yn eu cartref.



Gall hyn helpu i gadw pobl yn ddiogel. A'u rhwystro rhag bod mewn perygl o effaith **carbon monocsid**.



Ar hyn o bryd dim ond os ydych chi'n defnyddio offer arbennig y mae'r gyfraith yn dweud bod yn rhaid i chi gael **larwm carbon monocsid**. Er enghraifft, stôf llosgi coed.




Ym mis Gorffennaf 2022 daeth deddf newydd allan i landlordiaid sy'n gosod cartrefi.



Mae'n rhaid iddyn nhw wneud yn siŵr bod gan bob ystafell sydd ag offer nwy, olew neu goed fod â **larwm** **carbon monocsid**.



**Fe hoffen ni wybod beth mae pobl yn ei feddwl ynghylch cael larymau carbon monocsid ym mhob cartref.**



**Atebwch y cwestiynau yn y ddogfen hon a'i hanfon yn ôl at:**

**E-bost:** enquiries.brconstruction@gov.wales

**Post:** Rheoliadau Adeiladu
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ





**Anfonwch eich ymatebion aton ni erbyn: 28 Ebrill 2023**



Rydyn ni'n meddwl y **dylai** pob cartref sy'n gosod offer sy'n defnyddio olew, nwy neu danwydd solet fel coed o ryw fath, **gael larymau carbon monocsid.**



Byddai hyn yn helpu i gadw pobl yn ddiogel. A rhoi tawelwch meddwl i bobl.



**Cwestiwn 1**

**Ydych chi'n cytuno â'n cynlluniau i'w gwneud hi'n gyfraith i bob cartref gael larwm carbon monocsid os byddan nhw'n gosod offer sy'n defnyddio:**

- **unrhyw olew**
- **unrhyw nwy**
- **neu unrhyw danwydd solet fel coed?**

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Os nad ydych, dywedwch pam wrthyn ni:

# Mannau eraill



A ddylai **larymau** **carbon monocsid** fod mewn mannau fel garejis neu atigau?

Weithiau mae boileri mewn lleoedd fel hyn. Ond efallai nad yw pobl yn treulio amser ynddyn nhw.

**Cwestiwn 2**

**Ydych chi'n meddwl y dylai mannau fel y rhain gael eu cynnwys yn y ddeddf hon hefyd?**

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Os nad ydych, dywedwch pam wrthyn ni:

# Ystafelloedd gwely



Weithiau mae offer mewn un ystafell, ond gallai **ffliwiau** redeg trwy ystafell wely.

Gall **ffliw** feddwl pibellau o'r offer neu ran o gorn simnai.

**Cwestiwn 3**

**Ydych chi'n meddwl y dylai ystafelloedd sydd â ffliwiau ynddyn nhw gael eu cynnwys yn y ddeddf hon?**

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Os nad ydych, dywedwch pam wrthyn ni:

# Poptai



Rydyn ni'n meddwl mai dim ond poptai sydd â **ffliwiau** ddylai gael eu cynnwys yn y ddeddf hon. Mae hyn oherwydd nad yw poptai fel arfer yn cael eu cynnwys mewn deddf am adeiladau.

**Cwestiwn 4**

**Ydych chi'n cytuno â hyn?**

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Os nad ydych, dywedwch pam wrthyn ni:

# Pethau eraill i feddwl amdanyn nhw

## Larymau



Ar hyn o bryd mae larymau **carbon monocsid** i fod i:





- Ddilyn safonau Sefydliad Safonau Prydeinig



- Bod â batri sy'n para trwy fywyd y larwm



- **Neu** gael eu pweru gan y brif wifren drydanol gyda gwifrau sy'n sownd.



Fe hoffen ni wybod a ydych chi'n meddwl y dylai'r rheolau hyn aros yr un peth neu gael eu newid.




**Cwestiwn 5**

**Ydych chi'n meddwl y dylai'r ddeddf ar y math o larwm carbon monocsid sy'n cael ei ddefnyddio gael ei newid?**

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Os nad ydych, dywedwch pam wrthyn ni:

# Costau



Rydyn ni wedi meddwl am y costau o roi larwm **carbon monocsid** ym mhob cartref. Mae'n llawer o arian.



Ond byddai'n werth y gost. Bydden ni'n arbed mwy nag yr ydyn ni'n ei wario yn y pen draw.



**Cwestiwn 6**

**Dywedwch wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y costau a'r manteision o gael larymau carbon monocsid.**



**Cwestiwn 7**

**Defnyddiwch y gofod hwn i ddweud unrhyw beth arall wrthyn ni yr hoffech chi ei ychwanegu at hyn.**




## Cwestiwn 8

**Ydych chi'n meddwl y gallai'r cynlluniau hyn gael effeithiau da neu ddrwg ar yr iaith Gymraeg?**

**Sut gallwn ni wneud yn siŵr bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor deg â'r Saesneg?**




## Cwestiwn 9

**Sut gallai'r cynlluniau gael eu newid i wneud yn siŵr bod mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg?**

# Amdanoch chi




**Enw:**



**Eich gwaith (os ydych chi'n ateb ar ran gwaith)**



**I bwy rydych chi'n gweithio (os ydych chi'n ateb ar ran gwaith)**

**E-bost:**





**Cyfeiriad:**





**Efallai y byddwn yn cyhoeddi atebion pobl ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad.**

**Os nad oes arnoch chi eisiau cael eich enw neu'ch cyfeiriad yn cael ei ddangos yn unrhyw le, ticiwch yma.** ☐

**Fe fydd yr ymgynghoriad yn cau ar:** 28 Ebrill 2023

**Yna fe fyddwn yn cyhoeddi ymateb iddo.**

# Sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth




Rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth trwy ddilyn deddf sy'n cael ei alw'n **Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data**.



Bydd ein staff yn medru gweld eich atebion. Weithiau rydyn ni'n gofyn i fudiadau eraill ein helpu i ddeall atebion pobl. Felly, efallai y byddan nhw'n gweld eich gwybodaeth hefyd.




Fel arfer rydyn ni'n cyhoeddi adroddiad i ddangos y mathau o bethau ddywedodd pobl.




Weithiau mae hyn yn meddwl bod manylion personol pobl yn cael eu cynnwys. Dywedwch wrthyn ni os nad oes arnoch chi eisiau i'ch gwybodaeth bersonol gael ei chynnwys.




Os ydych chi yn ein hadroddiad gallai'r wybodaeth fod ar gael am gyfnod hir.




Ond dim ond am dair blynedd y bydd gwybodaeth sydd ddim yn cael ei chyhoeddi yn cael ei chadw.

Mae'r deddfau diogelu data yn rhoi'r hawl i chi:




- Wybod pa wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a sut y gallwch chi ei gweld.
- Gwneud i ni newid unrhyw gamgymeriadau yn yr wybodaeth amdanoch chi.
- Gofyn i ni beidio â defnyddio'r wybodaeth mewn rhai achosion.
- Gofyn i ni gael gwared â'r wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi mewn rhai achosion.
- Symud yr wybodaeth amdanoch chi i rywle arall mewn rhai achosion.
- Cwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Os hoffech chi wybod mwy am y ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei chadw a'i defnyddio cysylltwch â ni yn:



**Post:** Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ



**E-bost:** Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Gallwch chi hefyd gysylltu â **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**:



**Post:** Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF



**Ffôn:** 01625 545745 **neu** 0303 123 1113




**Gwefan:** https://ico.org.uk

# Geiriau anodd

## Carbon monocsid

Mae hwn yn sylwedd sy'n cael ei gynhyrchu pan fydd pethau fel nwy, olew a choed yn cael eu llosgi.